| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 10 Rhagfyr 2009 |
| **TEITL** | Ad-drefnu Ysgolion Tywyn |
| **PWRPAS** | Amlinellu cynigion i ad-drefnu ysgolion cynradd Tywyn, gosod y rhesymeg a gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i symud i gyfnod o ymgnghori statudol ar y cynigion |
| **ARGYMHELLIAD** | Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion ac yn awdurdodi cyfnodau o ymgynghori statudol ar y cynigion perthnasol |
| **AWDUR** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts |

**NODER**:
Mae cynnwys yr adroddiad hon yn dilyn cyfnod o drafod yn nalgylch Tywyn. Mae'r cynigion yn adlewyrchu anghenion Cyngor Gwynedd yn unol a strategaeth ad-drefnu ysgolion y Cyngor. Mae canllawiau clir wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth y Cynulliad o ran y broses statudol sydd angen ei dilyn wrth newid statws ysgol. Cadarnheir na fydd y cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion hyn yn cychwyn nes i'r Cyngor gymerdawyo ymgynghoriad statudol.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Sefydlwyd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd ym Mehefin 2008.

1.2 Cynhaliwyd 15 o gyfarfodydd i drafod ystod o dystiolaeth, gan gynnwys cyflwyniadau gan:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- ESTYN/Swyddfa Archwilio Cymru
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Cynghrair Ysgolion a Chefnogwyr
- Penaethiaid yn cynrychioli ysgolion bach, canolig a mawr yng Ngwynedd
- National Association for Small Schools

1.3 Yn ystod Gwanwyn 2009, cyhoeddodd y Gweithgor Gwella ei strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*.

1.4 Cytunwyd bod angen adolygu addysg led-led y sir fesul dalgylch. Gosodwyd camau clir ar gyfer cynnal y broses.

1.5 Gosodwyd ynddi restr o amcanion a meini prawf y dylid eu cadw mewn cof wrth gynnal yr adolygiadau:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a niferoedd disgyblion
- Amgylchedd dysgu'r plentyn
- Y Gymuned

- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau daearyddol
- Amgylchiadau eithriadol
- Cylchlythyr 23/02

1.6 Datblygwyd ystod o feini prawf penodol o amgylch y ffactorau uchod. O fesur y meini prawf yn erbyn sefyllfaoedd dalgylchoedd unigol, adnabuwyd Tywyn fel y dalgylch cyntaf i'w hadolygu.

1.7 ***Derbyniwyd y strategaeth yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009***.

## 2. ADOLYGU DALGYLCH TYWYN

### *2.1 Dulliau cyfathrebu*

2.1.1 Sefydlwyd nifer o fforymau i geisio barn wrth i'r Deilydd Portffolio Addysg ddatblygu ei chynigion, gan gynnwys:

- Panel Adolygu Dalgylch
- Cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni pob ysgol
- Sesiwn i blant a phobl ifanc
- Cyfathrebu ehangach
- Panel Ymgynghorol Sirol

2.1.2 Sicrhawyd hefyd bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i bawb oedd â diddordeb.

### *2.2 Panel Adolygu Dalgylch Tywyn*

2.2.1 Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch Tywyn yn ystod Gwanwyn 2009. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel ar 21 Mai 2009. Cynhaliwyd 4 cyfarfod pellach ar 18 Mehefin, 6 Gorffennaf, 10 Medi a 24 Medi 2009.

2.2.2 Gwahoddwyd cynrychiolaeth - sef pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant lywodraethwr - o bob un o'r wyth ysgol gynradd yn y dalgylch. Estynnwyd gwahoddiad hefyd i bennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tywyn a'r 6 chynghorydd lleol. ***Mynychodd 32 o aelodau sefydlog oedd yn cynrychioli'r dalgylch 5 o gyfarfodydd.***

2.2.3 Derbyniwyd a thrafodwyd ystod o dystiolaeth gan y Panel, gan gynnwys pecyn o ystadegau ar yr ardal a gytunwyd gan y Panel cyfan fel adlewyrchiad cyflawn a theg. Wrth baratoi'r wybodaeth ystadegol, gofynnwyd i gynrychiolwyr ysgolion gyflwyno'u sylwadau, herio cynnwys y papurau a gofyn am unrhyw wybodaeth bellach fel yr oedd ei angen. Ar ddiwedd ail gyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch ar 18 Mehefin 2009, ***cytunodd aelodau'r Panel Adolygu Dalgylch fod y wybodaeth ystadegol a gyflwynwyd yn adlewyrchiad cyflawn a chywir o sefyllfa'r dalgylch a bod ceisiadau pellach y dalgylch wedi'u hateb yn llawn.***

2.2.4 Cyflwynwyd hefyd wybodaeth ar:

- y cyd-destun ariannol
- gwybodaeth am ddatblygiadau cenedlaethol gan gynnwys arweiniad y Llywodraeth ar sefydlu patrymau o gydweithio rhwng ysgolion

2.2.5 Cyflwynwyd 9 o opsiynau unigol posib ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cylch gan y Panel yng nghyfarfod 18 Mehefin 2009. Ychwanegwyd 4 opsiwn arall gan y Panel Ymgynghorol Sirol (gweler isod). Derbyniwyd dadansoddiad o oblygiadau addysgol, rheolaethol ac ariannol pob un cynnig yng nghyfarfod y Panel ar 6 Gorffennaf 2009, a thrafodwyd manteision ac anfanteision yr opsiynau mewn manylder yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch ar 6 Gorffennaf a 10 Medi 2009. Rhestrir yr opsiynau isod:

- dim newid
- cydweithio rhwng ysgolion Penybryn (Tywyn) ac Aberdyfi
- sefydlu ysgol Aberdyfi fel canolfan Cyfnod Sylfaen ar gyfer cymunedau Tywyn ac Aberdyfi gydag Ysgol Penybryn yn cynnig addysg Cyfnod Allweddol 2
- cydweithio rhwng ysgolion Aberdyfi, Pennal a Dyffryn Dulas (Corris)
- cydweithio rhwng ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas (Corris)
- cydweithio rhwng ysgolion Bryncrug, Abergynolwyn, Llwyngwril a Llanegryn
- ysgol ardal newydd i wasanaethu cymunedau Bryncrug, Abergynolwyn, Llwyngwril a Llanegryn
- cydweithio rhwng ysgolion Llwyngwril a'r Friog
- sefydlu 3 ysgol ffederal yn y dalgylch gyda'r lleill yn parhau fel ysgolion cyfnod sylfaen
- cau ysgolion Llwyngwril, Llanegryn ac Abergynolwyn ac addasu safle Bryncrug i dderbyn disgyblion y tair ysgol
- cau ysgol Aberdyfi a chynnig lle i blant y dalgylch yn ysgol Tywyn
- sefydlu un ysgol gynradd (oed 3-11) i'r dalgylch yn nhref Tywyn, gan gau pob ysgol gynradd ac eithrio Dyffryn Dulas (Corris)
- sefydlu un ysgol gydol oes (3-16) i'r dalgylch yn nhref Tywyn, gan gau pob ysgol gynradd ac eithrio Dyffryn Dulas (Corris).

### *2.3 Cyfarfodydd gydag ysgolion unigol*

2.3.1 Cynhaliwyd ymweliad â phob ysgol yn y dalgylch gan y Deilydd Portffolio Addysg a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol (Cyng. Simon Glyn) ar gychwyn y broses. Pwrpas yr ymweliad oedd cyfarfod penaethiaid ac i weld a dod i ddeall sefyllfaoedd ysgolion unigol.

2.3.2 Yn dilyn cyfarfod cyntaf y Panel Adolygu Dalgylch, cytunodd 6 chynghorydd lleol y dalgylch y dylent hwythau hefyd ymweld â phob ysgol. Gwnaethpwyd hyn cyn ail gyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch.

2.3.3 Cynhaliwyd dau gylch o gyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn ystod y broses, yn ystod cyfnodau 1-5 Mehefin 2009 a 14-21 Medi 2009. Cyfyngwyd y cylch gyntaf i staff a chadeirydd llywodraethwyr, tra estynnwyd gwahoddiad agored i

staff, llywodraethwyr a rhieni i fynychu cyfarfodydd ar wahan yn ystod yr ail gylch.

2.3.4 ***Cynhaliwyd felly 32 o gyfarfodydd unigol ar draws 12 diwrnod llawn gyda chynrychiolwyr ysgolion unigol, yn ogystal ag ymweliad gan y Deilydd Portffolio a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol***.

2.3.5 Bu cyfle yn ystod yr ail gylch o gyfarfodydd rhwng 14-21 Medi 2009 i ysgolion dderbyn gwybodaeth am drafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch ac i gynnig sylwadau ar yr opsiynau unigol a'r modelau dalgylch oedd dan sylw.

### *2.4 Plant a Phobl Ifanc*

2.4.1 Yn ystod cyfarfod cyntaf y Panel Adolygu Dalgylch ar 21 Mai 2009, awgrymwyd y dylid gofyn am farn plant a phobl ifanc wrth i'r broses fynd yn ei blaen. Cytunwyd i hyn gan gynrychiolwyr pob ysgol yn y Panel Adolygu Dalgylch.

2.4.2 Ar ddechrau Medi 2009, felly, hysbyswyd ysgolion unigol y byddai'r sesiwn ar gyfer plant a phobl ifanc yn digwydd yn Ysgol Uwchradd Tywyn ar 14 Medi 2009. Gofynnwyd i ysgolion drefnu cynrychiolaeth o aelodau'r Cyngor Ysgol, a chytunwyd y dylid cynnwys 3-4 o blant o bob ysgol.

2.4.3 Gwahoddwyd pennaeth pob ysgol i deithio i'r sesiwn gyda'r plant ac anfonwyd rhaglen o'r gweithgareddau a'r cwestiynau y bwriedid eu gofyn i blant a phobl ifanc at y penaethiaid. Rhoddwyd cyfle i benaethiaid gwestiynu'r trefniadau ac i gynnig gwelliannau. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach gan benaethiaid cyn y sesiwn.

2.4.4 Hwyluswyd y sesiwn ar 14 Medi 2009 gan swyddogion arbenigol y Cyngor.

2.4.5 Cynhaliwyd ystod o weithgareddau er mwyn canfod barn plant a phobl ifanc ar nifer o bynciau, gan gynnwys:

- maint dosbarthiadau
- ystod oedran o fewn dosbarth
- iaith plant tu allan i'r ystafell dosbarth
- pellteroedd teithio i'r ysgol

2.4.6 Wrth gloi'r sesiwn, gofynnwyd i blant a phobl ifanc awgrymu'r math o gyfleusterau yr hoffent weld mewn ysgol.

2.4.7 Cynhyrchwyd adroddiad llawn 13 tudalen ar y sesiwn. Yn gyffredinol, dangosodd plant teyrngarwch i'w ysgolion a'u athrawon tra hefyd yn adnabod nifer o adnoddau yr hoffent weld yn eu ysgolion. Rhannwyd yr adroddiad gyda phapurau'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 8 Hydref ac eto gyda phapurau Bwrdd y Cyngor ar 3 Tachwedd 2009. Gellir hefyd gweld yr adroddiad ar wefan y Cyngor.

### *2.5 Panel Ymgynghorol Sirol*

2.5.1 Wrth dderbyn y strategaeth yn ddiwrthwynebiad, rhoddodd y Cyngor ganiatâd i aelodau'r Gweithgor Gwella barhau fel fforwm i gefnogi'r Deilydd Portffolio

Addysg wrth iddi arwain adolygiadau fesul dalgylch. Gwnaethpwyd hynny dan enw *Panel Ymgynghorol Sirol*. ***Estynwyd gwahoddiad i gynrychiolydd o bob grwp ar Gyngor Gwynedd.***

2.5.2 Bu 4 cyfarfod o'r Panel Ymgynghorol Sirol i drafod datblygiadau yn Nhywyn, ar 22 Ebrill, 24 Mehefin, 1 Medi ac 14 Medi 2009.

2.5.3 Cynigiwyd nifer o opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cylch gan y Panel, ochr yn ochr â dadansoddiad o fodelau a gynigiwyd gan y Panel Adolygu Dalgylch.

2.5.4 Cynrychiolwyd pob grŵp gwleidyddol yn y Panel Sirol. Ymddiswyddodd un aelod o'r Panel cyn cyfarfod 1 Medi 2009.

2.5.5 ***Cymeradwywyd cynigion yr Arweinydd Portffolio gan fwyafrif y Panel Ymgynghorol Sirol***.

### *2.6 Cyfathrebu ysgrifenedig*

2.6.1 ***Paratowyd pedair newyddlen i'w cylchredeg i bob ysgol yn dilyn pob cyfarfod ond un o'r Panel Adolygu Dalgylch. Anfonwyd copïau caled at yr ysgolion i'w cylchredeg i bob rhiant, e-bostiwyd y newyddlen at bob ysgol a chyhoeddwyd y newyddlenni ar wefan y Cyngor. Roedd y pedwerydd yn crynhoi'r cynigion a fyddai'n mynd gerbron y Cyngor***.

2.6.2 Cyhoeddwyd holl bapurau'r Panel Adolygu Dalgylch ar wefan y Cyngor.

2.6.3 Rhoddwyd manylion cyswllt swyddogion oedd yn ymwneud â'r gwaith ar y wefan.

### *2.7 Statws y broses*

2.7.1 Noder fod y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy hyd yn hyn yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth wrth lunio cynigion cychwynnol.

2.7.2 Cyhoeddwyd Gylchlythyr 021/2009 *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion* ar 18 Medi 2009. Defnyddiwyd y Cylchlythyr blaenorol (23/02 *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion*) wrth lunio'r cynigion. Mae'r Cylchlythyr newydd yn berthnasol i gynigion a gyhoeddir yn statudol o Ionawr 2010 ymlaen ac felly'n berthnasol i'r cynigion hyn.

2.7.3 ***Cadarnheir felly nad yw'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy wrth lunio'r cynigion hyn yn rhan o'r broses statudol o adolygu'r ddarpariaeth yn nalgylch Tywyn. Mae'r trafodaethau hyd yn hyn yn ychwanegol i'r hyn ddisgwylir gan Lywodraeth y Cynulliad***.

## 3. CYNIGION DALGYLCH TYWYN

3.1. Ar 24 Medi 2009, cyflwynodd y Deilydd Portffolio Addysg ei chynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion dalgylch Tywyn i Banel Adolygu'r Dalgylch, sef:

- ***ysgol Ardal newydd yn ardal Bryncrug neu Lanegryn*** i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2013-14. Golyga hyn ***gau ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llwyngwril a Llanegryn*** pan fydd yr ysgol newydd yn barod.

Oherwydd pryder rhai ysgolion am y cyfnod rhwng cyhoeddi'r cynigion a'r dyddiad ar gyfer agor yr ysgol newydd, rhoddwyd ymrwymiad y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r ysgolion i aros ar agor yn y cyfamser. Serch hynny, petai amgylchiadau eithriadol – e.e. niferoedd disgyblion eithriadol o isel, anawsterau wrth benodi penaethiaid a staff – yn codi yn y cyfamser, bydd angen i'r Cyngor gynnal trafodaethau gyda'r ysgolion penodol.

- ***Cau Ysgol Aberdyfi erbyn Medi 2011*** gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn
- ***Hybu cydweithio rhwng Ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas, Corris***.

3.2. Cymeradwywyd y cynigion gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc (8 Hydref 2009) a Bwrdd y Cyngor (3 Tachwedd 2009).

3.3. Cynigir yma grynodeb o'r rhesymeg tu ol i'r cynigion. Cynigir dadansoddiad llawn o'r rhesymeg dros bob un o'r 3 cynnig yn Atodiad A. Rhestrir yno'r materion dan sylw dan 3 prif bennawd, sef:

- Rhesymeg y cynigon
- Gwybodaeth ar safle i'r ysgol ardal arfaethedig
- Rhestr o gwestiynau a ofynnir yn aml

## 4. RHESYMEG Y CYNIGION AR GYFER DALGYLCH TYWYN

### *4.1 Maint Dosbarthiadau*

4.1.1 Maint dosbarthiadau'r dalgylch ar gyfartaledd heddiw yw 18.5, gydag amrediad o 7 i 23.

4.1.2 Mae astudiaeth o ystod o dystiolaeth yn amlinellu'r farn gyffredinol – a gadarnhawyd ym mholisi'rLlywodraeth – fod dosbarthiadau o dros 30 o ddisgyblion yn annerbyniol i blant dan 7 oed ac yn annymunol i blant o 7-11 oed.

4.1.3 Ymhellach, mae ymchwil diweddar yn awgrymu y gall dosbarthiadau fod yn rhy fach. Nododd Peter Blatchford yn ei gyhoeddiad "The Class Size Debate: Is Small Better" (2003) *"…it may also be worth considering that class sizes can be too small"* gan adrodd bod athrawon wedi awgrymu *"…the dynamics of the group could become flat and some children could dominate"*.

4.1.4 Mae'r strategaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009 yn nodi uchelgais i sicrhau dosbarthiadau rhwng 12-25 yn nifer y disgyblion

4.1.5 O wireddu'r holl argymhellion, bydd maint dosbarthiadau'r dalgylch ar gyfartaledd ychydig yn fwy na 21, gydag amrediad o ysgol i ysgol o 18 i 23.

### *4.2 Niferoedd disgyblion*

4.2.1 Mae niferoedd disgyblion oed cynradd y dalgylch wedi lleihau 30% ers 1975. Yn ol ffigyrau gyflwynwyd gan ysgolion unigol ac a wiriwyd a chadarnhawyd yn ystod trafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch, disgwylir i niferoedd leihau 10% eto yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

4.2.2 Mae safonau addysg yn greiddiol i'r cynigion. Er bod yna ragdybiaeth cyffredinol bod safonau addysg mewn ysgolion bach yn uwch nag mewn ysgolion mwy, nid oes tystiolaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth. Yn wir, mae adroddiad ESTYN *Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymrum(2003)* yn nodi nad oes gwahaniaeth sylweddol rhwng safonau addysg mewn ysgolion mawr a bach, ond *"…lleia'n y byd yw'r ysgol, yr anoddaf yw'r dasg yn aml i'r athro gydweddu gwaith i holl anghenion dysgu'r disgyblion.* Â'r adroddiad ymlaen i *nodi "…gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion bach gydweddu gwaith ag anghenion disgyblion, gan y gall disgyblion ym mhob dosbarth wahaniaethu'n fawr o ran oed a chyfnodau datblygu. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr ysgolion lleiaf (gyda hyd at 30 o ddisgyblion), lle mae 28% o waith anfoddhaol o gymharu ag 8% o waith anfoddhaol mewn ysgolion â dros 210 o ddisgyblion'.*

4.2.3 Mae 6 ysgol dau athro o fewn y dalgylch heddiw, gydag un ohonynt yn debygol o fod yn ysgol un athro erbyn Medi 2010. Mae'r cyfan yn darparu addysg i lai na 40 o ddisgyblion.

4.2.4 O weithredu'r cynigion yn llawn, byddai gan y dalgylch (ar sail dyraniad 2009-10) un ysgol gydag ychydig dros 9 athro, un ysgol gydag ychydig dros 4 athro ac un trefniant o gydweithio fydd yn cynnwys cyfanswm o 5 athro.

### *4.3 Amgylchedd Dysgu'r Plentyn*

4.3.1 Mae'r strategaeth a gymeradwywyd yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor yn Ebrill 2009 yn nodi bod amgylchiadau addysgu yn greiddiol i ddarparu addysg o'r radd flaenaf.

4.3.2 Mae adroddiad ESTYN "Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol" (2007) yn cadarnhau'r farn uchod. Noda'r adroddiad bod ysgolion oedd wedi symud i adeiladau newydd neu wedi gweld eu hadeiladau'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol wedi gweld gwelliant mewn cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion (yn enwedig mewn rhai ysgolion mewn cymunedau sydd â lefel uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd), bod arolygiadau Estyn o ysgolion unigol yn dangos bod ansawdd yr addysgu wedi gwella, bod morâl staff wedi codi, bod presenoldeb wedi'i gynnal ac ymddygiad wedi gwella a bod adeiladau newydd yn cynnig mwy o ddewis a darpariaeth well o ran addysg o fewn yr ysgol a gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol.

4.3.3 Mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn amcangyfrif bod angen gwario tua £1.5m ar atgyweirio ac addasu'r 8 ysgol yn y dalgylch. O gau 5 ohonynt, byddai'r gost yn lleihau i tua £600,000, sef arbediad o tua £900,000.

4.3.4 Mae'r cynnig ar gyfer dalgylch Tywyn yn rhagweld adeiladu ysgol newydd yn ardal Bryncrug neu Lanegryn ac adnewyddu adeiladau Penybryn, Dyffryn Dulas a Phennal. Fel rhan o'r cais i'r Llywodraeth am arian grant i gefnogi adeiladu'r ysgol ardal, cyflwynir cais am gyfalaf ychwanegol i uwchraddio cyfleusterau gweddill ysgolion y dalgylch.

### *4.4 Arweinyddiaeth*

4.4.1 Mae 23 o athrawon yn gweithio yng nghylch Tywyn heddiw, 8 ohonynt yn benaethiaid. Petai'r drefniadaeth newydd yn dod i rym heddiw, byddai o leiaf

18 o athrawon yn gyflogedig yn y cylch, 4 ohonynt yn benaethiaid. Mae union natur y cydweithio rhwng ysgolion Dyffryn Dulas a Phennal i'w drafod ymhellach, ond gall hyn golygu y byddai un pennaeth yn cymryd gofal dros y ddwy ysgol maes o law.

4.4.2 Byddai'r drefniadaeth newydd yn rhyddhau adnoddau cyfwerth â 5.5 athro ychwanegol i'w dosbarthu ar draws sector cynradd Gwynedd.

### *4.5 Y Gymuned*

4.5.1 Cyhoeddwyd dadansoddiad o'r defnydd cymunedol o bob ysgol, a chyfraniad ysgolion i'w cymunedau, yn y pecyn ystadegol. Rhestrwyd hefyd adnoddau (e.e. canolfannau cymunedol, swyddfeydd post, canolfannau hamdden).

4.5.2 Mae canllawiau'r Llywodraeth (Cylchlythyr 021/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) ar ad-drefnu ysgolion yn nodi'r disgwyliadau o safbwynt cymunedol. Er nad oedd y canllawiau ar gael wrth gynnal yr adolygiad dalgylch, rhoddwyd ystyriaeth i nifer o'r ffactorau a gynhwysir yn y cylchlythyr newydd.

4.5.3 Wrth baratoi'r cynigion, casglwyd a rhannwyd gwybodaeth ar ffactorau cymunedol a ieithyddol. Mae Cylchlythyr 021/2009 yn nodi ffactorau sydd angen eu hystyried wrth lunio'r cynigion. Mae gwybodaeth ar y ffactorau a ystyriwyd yn nadansoddiad ystadegol o'r dalgylch sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

### *4.6 Adnoddau Ariannol*

4.6.1 Dyrennir cyfanswm o £1,596,616 (heb gynnwys unedau AAA a datganoli integreiddio) i'r 8 ysgol gynradd yn nalgylch Tywyn yn 2009/10. Mae hyn gyfystyr a £3,703 fesul disgybl, er bod amrediad rhwng ysgolion o £2,894 i £7,822.

4.6.1 Cyfanswm dyraniad trefniadaeth y dalgylch newydd - ar sail y dyraniad cyfredol ac ar ôl cymryd ystyriaeth o anghenion cludiant ychwanegol a amcangyfrifir fel £79,000 - fyddai £1,295,871. O ran costau refeniw, byddai sefydlu'r drefniadaeth newydd yn arbed £221,745 y flwyddyn, sef 14% o gyllideb refeniw'r dalgylch heddiw.

4.6.2 Mae 6 o'r 8 ysgol yn y cylch yn derbyn £90,184 yn ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio sydd yn gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol a pennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd a llai na 15 o ddisgyblion . O wireddu'r cynnig, dim ond un ysgol – sef Ysgol Pennal – fyddai'n derbyn arian ychwanegol o ganlyniad i'r polisi. Ar hyn o bryd mae hyn gyfystyr â £3,921 y flwyddyn.

4.6.3 Os derbynnir y cynigion, bydd y Cyngor yn parhau i weithio ar gynllun i gadw canran o unrhyw arbedion o fewn y dalgylch am hyd y broses ad-drefnu ar draws y sir, a hynny at bwrpas lleihau maint dosbarthiadau.

### *4.7 Yr Iaith Gymraeg*

4.7.1 Cyflwynwyd dadansoddiad o gefndir ieithyddol pob ysgol - ar sail gwybodaeth a gasglwyd wrth baratoi Asesiad Iaith o bob ysgol yn y sir yn ystod gwanwyn

2008 - yn y pecyn ystadegau. Cynigiwyd cyfle i ysgolion herio'r dystiolaeth, a gwnaethpwyd hynny gan rai. Cytunwyd ar y dadansoddiad yn dilyn hynny.

4.7.2 Rhoddwyd ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y dalgylch i dynnu ysgolion ieithyddol debyg at ei gilydd.

4.7.3 Os derbynnir y cynnig hwn gan y Cyngor, bydd angen i'r Cyngor ddangos ei bod wedi cyflawni Asesiad Ardrawiad Iaith wrth symud i'r broses statudol. Cyflawnir hyn yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad yng Nghylchlythyr 021/2009.

### *4.8 Ffactorau Daearyddol*

4.8.1 Anelwyd at gyfyngu teithio lle bo hynny'n bosib. Mae'r cynnig gerbron yn cyfarfod â gofynion y strategaeth o safbwynt teithio, sef i gyfyngu teithio i ddim mwy na 30 munud un ffordd.

## 5. CRYNODEB O'R CYNIGION

5.1 Nodir uchod restr o ffeithiau ac o ddangosyddion sy'n amlinellu'r rhesymeg dros y cynigion.

5.2 Mi fydd y trefniant newydd yn sicrhau cyfle cyfartal i holl blant y dalgylch dderbyn addysg mewn grwpiau o faint rhesymol ac yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ac i gyd-chwarae gyda chyfoedion yn fwy rheolaidd.

5.3 Bydd angen llai o benaethiaid yn y dalgylch a bydd cyfle i athrawon rannu arbenigeddau amrywiol a chynnig yr arbenigedd hynny i'r disgyblion. Bydd dosbarthiadau yn cynnwys llai o ystod oedran ac felly'n hwyluso cynllunio ac addysgu gan yr athrawon.

5.4 Mae'r cynigon yn cynnig y cydbwysedd orau rhwng darparu addysg effeithiol mewn sefydliadau effeithlon wrth gynnig dewis i rieni. Ni fydd unrhyw blentyn yn gorfod teithio mwy na 30 munud i'r ysgol gynradd ar ôl gweithredu'r cynigion.

5.5 Mae'r cynigion yn cymryd ystyriaeth o anghenion adeiladau ysgolion y cylch ac amcanion yr Awdurdod wrth ddatblygu ysgolion sy'n addas i'r 21ain Ganrif. Mae'r cynllun dalgylch cyfansawdd yn rhagweld adeiladu ysgol gwbwl newydd gan addasu tair ysgol bellach i'w gwneud yn addas at bwrpas. Bwriedir cyflwyno cais am arian cyfalaf i'r Llywodraeth yn unol a'r strategaeth Ysgolion 21ain Ganrif.

5.6 Mae datblygu cymuned dysgu gadarn a sefydlog yn greiddiol i gynnig y cyfleoedd gorau i blant. Trwy sefydlogi'r sefyllfa, gellid rhyddhau penaethiaid, athrawon a staff ategol i ganolbwyntio ar ddatblygu cwricwlwm sy'n cynnig y cyfleoedd orau i blant.

5.7 Mae'r cynigion yn rhagweld datblygu ffocws cymunedol pob ysgol yn y cylch. Mae angen i ysgolion yr 21ain Ganrif ddarparu gwasanaethau sydd yn tynnu'r gymuned a'r ysgol at ei giliydd, gan hyrwyddo addysg i oedlion, clybiau cyn ac ar ôl ysgol, a gweithgareddau cymunedol eraill.

5.8 Byddai creu sefydlogrwydd yn sicrhau dyfodol tymor canol i'r 4 ysgol gynradd yn y cylch ac yn galluogi cynllunio cymunedol i ddigwydd o gwmpas yr ysgolion hynny.

5.9 Rhyddheir arbedion sylweddol o weithredu'r cynigion yn llawn, gan arbed 14% o'r gyllideb refeniw a dros 60% o'r gyllideb cynnal a chadw ynghyd ag anghenion addasu.

5.10 Ystyriwyd opsiynau amgen ar gyfer ad-drefnu ysgolion y dalgylch ond ym marn yr Arweinydd Portffolio mae'r cynigion sydd gerbron yn cynnig y cydbwysedd gorau rhwng cynnal safonau addysg, sicrhau ysgolion sydd yn ariannol hyfyw, llesteirio anawsterau staffio, cynnal hygyrchedd at ysgolion ac yn cynnig cyfle i ddatblygu adeiladau ysgolion sydd yn addas at ofynion y 21ain Ganrif yn unol ag anghenion yr ardal benodol hon.

5.11 Cynhaliwyd ystod o gyfarfodydd gydag ysgolion, penaethiaid, llywodraethwyr, staff, rhieni a phlant eisoes. Os cymeradwyir y cynigion hyn gan y Cyngor, bydd cyfnod o ymgynghori statudol yn dilyn i'r ysgolion hynny sydd yn wynebu newid statudol a bydd adroddiad pellach ar ganfyddiadau'r broses honno yn dod gerbron y Cyngor cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

## 6. SAFLEOEDD

6.1 Mewn ymateb i gais y Panel Ymgynghorol Sirol, penderfyniad y Bwrdd yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Dachwedd a dyheadau'r cymunedau lleol am wybodaeth bellach ynghlŷn â lleoliad unrhyw ysgol newydd, mae'r gwaith o adnabod safleoedd addas ar gyfer datblygu Ysgol Ardal eisoes ar y gweill.

6.2 Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn rhagdybio penderfyniad y Cyngor ynglŷn â'r Cynllun arfaethedig ar gyfer yr ardal nac ychwaith yn rhagdybio canlyniad unrhyw ymgynghori statudol ar ddyfodol unrhyw ysgol benodol ond yn hytrach yn rhagbaratoi'r ffordd ymlaen petai'r Cyngor yn dymuno symud i'r cyfeiriad yma. Cyllidir yr adnoddau staffio ar gyfer y gwaith o'r grant SCIF sydd newydd ei ddyrannu i'r pwrpas hwn.

6.3 Canolbwyntiwyd yn gyntaf ar safleoedd yn ardal Llanegryn a Bryncrug a hynny oherwydd ymarferoldeb cludo disgyblion

6.4 Adnabuwyd 16 safle posib yn y lleoliadau hyn ac mae gwaith technegol cychwynnol wedi ein galluogi i sefydlu rhestr fer gychwynnol o 5 safle, 2 ym Mryncrug a 3 yn Llanegryn.

6.5 Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd aethpwyd ymlaen i wneud gwaith technegol mwy manwl ar y 5 safle yma gan gynnwys ymchwilio ymhellach i agweddau cynllunio, trafnidiaeth, llifogydd, addasrwydd ffisegol y tir ayb

6.6 Mae hon yn broses fanwl sydd angen ei chwblhau ar gychwyn unrhyw brosiect adeiladu a fydd wedyn yn rhoi seiliau cadarn ar gyfer adnabod y safle mwyaf addas yn nhermau technegol cyn cychwyn ar y broses dylunio fanwl.

6.7 Yn gyfochrog â hyn, rydym hefyd wedi cychwyn ar y gwaith o drafod a negodi telerau prynu tir gyda'r amrywiol dirfeddianwyr. Yn amlwg ni ellir cytuno telerau terfynol hyd nes y bydd y gwaith technegol ar bob safle wedi ei gwblhau.

6.8 Yn dilyn cwblhau'r gwaith technegol hwn, ac yn dilyn cwblhau'r trafodaethau i negodi telerau prynu, bwriedir cyflwyno adroddiad pellach i Fwrdd y Cyngor yn argymell prynu safle penodol ar gyfer datblygu Ysgol Ardal, os mabwysiedir y Cynllun gan y Cyngor wrth gwrs.

6.9 Rhagwelir y byddwn mewn sefyllfa i gyflwyno'r adroddiad hwn yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

## 7. CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

7.1 Ers cyhoeddi cynigion yr Arweinydd Portffolio ar 24 Medi 2009, derbyniwyd nifer o lythyron ac e-byst yn amlinellu cwestiynau a/neu anghytundeb ynghylch y cynigion a'r broses.

7.2 Mae Atodiad B yn crynhoi'r prif bwyntiau a dderbyniwyd hyd yn hyn fel "Cwestiynau a ofynnir yn aml" ac yn cynnig atebion bras.

## 8. CAMAU NESAF

8.1 Os cymeradwyir y cynigion hyn gan y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2010, mae'n ofynnol cynnal cyfnod o ymgynghori statudol gyda phob ysgol unigol sy'n wynebu cau neu newid statws, a hynny yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad fel y'u crisialwyd yng Nghylchlythyr 021/2009 *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion*.

8.2 Mae'r Cylchlythyr yn nodi'n glir y disgwyliadau wrth ddatblygu cynigion.

8.3 Bydd y cyfnod o ymgynghori statudol yn cynnwys:

- Cyfarfodydd anffurfiol gyda'r ysgolion wrth baratoi dogfen ymgynghorol statudol
- Cyhoeddi'r dogfen ymgynghorol statudol
- Cyfarfodydd ffurfiol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni'r ysgolion i drafod y ddogfen ymgynghorol statudol
- Cyfnod o ddim llai na 4 wythnos ar gyfer derbyn sylwadau ac ymatebion ysgrifenedig i'r ddogfen ymgynghorol statudol
- Ar ddiwedd y cyfnod o ymgynghori statudol, mae disgwyl i'r sawl sy'n ymwneud a'r ymgynghoriad ddarparu adroddiad i sylw'r Cyngor yn crynhoi'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghyd â sylwadau pellach. Rhoddir cyfle wedyn i'r Cyngor benderfynu a ddylid bwrw ymlaen gyda'r broses o gau neu newid statws ysgolion.
- Os bydd penderfyniad i fwrw ymlaen, cyhoeddir rhybuddion statudol fesul ysgol yn nodi'r bwriadau ar gyfer yr ysgol honno yn glir. Cylchredir y rhybudd statudol i'r ysgolion penodol a sefydliadau perthnasol eraill, gosodir copïau ohono mewn mannau cyhoeddus yn yr ardal ac ar wefan y Cyngor. Rhoddir dim llai na 2 fis ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol i'r rhybudd statudol.
- Ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno rhybuddion statudol, daw'r mater yn ôl gerbron Bwrdd y Cyngor i gadarnhau'r bwriad. Os bnydd y Bwrdd yn penderfynu bwrw ymlaen gyda'r cynnig dan sylw ac nad oes gwrthwynebiadau ffurfiol wedi dod i law, gellir cadarnhau'r penderfyniad.

Os oes gwrthwynebiadau ffurfiol wedi'u derbyn, trosglwyddir y mater i'r Gweinidog Addysg yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8.4 Gofynnir felly i'r Cyngor gymeradwyo symud i'r cyfnod ymgynghori statudol yn unol â'r uchod.

## 9. ARGYMHELLION

9.1 I gymeradwyo'r cynnig i sefydlu ***ysgol Ardal newydd yn ardal Bryncrug neu Lanegryn*** i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2013-14. Golyga hyn ***gau ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llwyngwril a Llanegryn*** pan fydd yr ysgol newydd yn barod. Bwriedir symud i gyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion - gyda chaniatâd y Cyngor - yn ystod Gwanwyn 2010.

9.2 I gymeradwyo'r cynnig i ***Gau Ysgol Aberdyfi erbyn Medi 2011*** gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn. Bwriedir symud i gyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion - gyda chaniatâd y Cyngor - yn ystod Gwanwyn 2010.

9.3 I gymeradwyo'r cynnig i ***hybu cydweithio rhwng Ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas, Corris***. Nid oes i'r cynnig hwn oblygiadau statudol.

ITJ/ls/1.12.09

**ATODIAD A**

**RHESYMEG Y CYNIGION**

## 1. Ysgol Ardal Bryncrug/Abergynolwyn/Llanegryn/Llwyngwril

### *1.1 Maint Dosbarthiadau*

1.1.1 Mae dosbarthiadau yn y pedair ysgol yn amrywio o 7 i 17 heddiw. Mae'r strategaeth yn nodi y dylid anelu at ddosbarthiadau o rhwng 12-25 disgybl.

1.1.2 Rhagwelir y bydd grwpiau mwy o blant yn yr ysgol ardal newydd – petai 95 o blant yn mynychu'r ysgol byddai 4 dosbarth 2 oedran yn cynnwys dros 20 o blant.

### *1.2 Niferoedd disgyblion*

1.2.1 Mae niferoedd disgyblion y 4 ysgol ar y cyd wedi lleihau 47% rhwng 1975 a 2009, o 172 i 81.

1.2.2 Mae pryder am ddyfodol tymor canolig addysg yn y cylch. Mae rhagolygon yr ysgolion unigol yn awgrymu y bydd y sefyllfa yn argyfyngus erbyn 2013 - nodwyd gan yr ysgolion unigol y byddai gan Fryncrug 22 disgybl, Abergynolwyn 14 disgybl, Llanegryn 18 disgybl a Llwyngwril 24 disgybl, sef cyfanswm o 78. Ymhellach, mae Abergynolwyn yn rhagweld y gall niferoedd leihau i 8 erbyn 2011 os na fydd plant yn parhau i gychwyn yn nosbarth Meithrin yr ysgol.

### *1.3 Amgylchedd Dysgu'r Plentyn*

1.3.1 Bydd ysgol gymunedol newydd, safonol ac addas i bwrpas yn gwella'r ddarpariaeth addysgol ac yn lleihau costau cynnal a chadw.

1.3.2 Ar draws y 4 ysgol, rhagwelir bod yna ôl-groniad cynnal a chadw o £170,000, bod angen gwario £40,000 ar ragofalon tan, £61,000 i sicrhau bod dwy ysgol yn cwrdd â gofynion y DDA, a £530,000 ar wneud yr adeiladau'n addas at bwrpas. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau felly'n rhagweld bod angen gwario dros £800,000 ar atgyweirio ac addasu adeiladau'r 4 ysgol.

1.3.3 Mae rhaglen cyfalaf y Llywodraeth i gefnogi datblygiad *Ysgolion yr 21ain Ganrif* yn nodi'r awydd i ddatblygu ysgolion cymunedol sy'n addas i anghenion y ganrif hon. Bydd cymeradwyo'r cynnig hwn yn agor posibiliadau wrth geisio ennill grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth.

1.3.4 Mae adroddiad ESTYN sydd yn arfarnu ysgolion cyn ac ar ôl iddynt symud i adeiladau newydd (2007) yn nodi'n glir fod adeiladau newydd yn cyfrannu bron yn ddieithriad at wella safonau addysg, at ddarparu mwy o gyfleusterau i ddisgyblion, yn rhyddhau penaethiaid i arwain, yn codi moral staff a disgyblion ac yn cynnal presenoldeb,

### *1.4 Arweinyddiaeth*

1.4.1 O'r 4 ysgol dan sylw, mae gan ddwy ohonynt benaethiaid dros dro, un pennaeth fydd yn ymddeol o fewn y flwyddyn nesaf, ac un pennaeth parhaol

1.4.2 Mae profiadau diweddar yn y cylch wedi awgrymu ei bod hi'n gynyddol anodd canfod ymgeiswyr cymwys ac addas i gymryd awenau'r ysgolion.

1.4.3 Mi fydd sefydlu un ysgol ardal yn creu grŵp o staff mwy ac yn creu mwy o ryddid i Bennaeth ddatblygu sgiliau arweinyddol a rheolaethol, gan ryddhau athrawon dosbarth i ddysgu.

### *1.5 Y Gymuned*

1.5.1 Cynigiwyd crynodeb o gyfleusterau cymunedol a defnydd gan y gymuned o gyfleusterau'r ysgol yn y dadansoddiad ystadegol a gytunwyd gan bob ysgol.

1.5.2 Mae cefnogaeth i'r cynnig mewn egwyddor gan dair ysgol Abergynolwyn a Bryncrug a Llanegryn. Mae barn Llwyngwril i'w weld yn fwy cymysg, gydag er enghraifft wrthwynebiad cyffredinol yn cyferbynnu a chefnogaeth i'r egwyddor o ysgol ardal ar yr amod ei bod yn ardal Llwyngwril.

1.5.3 Mae perthynas addysgol rhwng y cymunedau eisoes. Mae cylch meithrin Bryncrug yn gwasanaethu cymunedau Abergynolwyn, Llanegryn a Llwyngwril.

1.5.4 Mae dros 10% o boblogaeth gynradd y 4 dalgylch yn derbyn addysg mewn ysgolion heblaw'r 4 hyn. Mae tebygrwydd y bydd ysgol ardal newydd yn atyniad ac yn cadw plant o fewn y dalgylch.

1.5.5 Wrth baratoi'r cynigion, casglwyd a rhannwyd gwybodaeth ar ffactorau cymunedol a ieithyddol. Mae Cylchlythyr 021/2009 yn nodi ffactorau sydd angen eu hystyried wrth lunio'r cynigion. Mae gwybodaeth ar y ffactorau a ystyriwyd yn nadansoddiad ystadegol o'r dalgylch sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

### *1.6 Adnoddau Ariannol*

1.6.1 Mae polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio yr Adran Addysg yn weithredol yn y pedair ysgol. Mae'r Sir yn gwario £416,300 yn ystod 2009-10 er mwyn cynnal isafswm o bennaeth ac athro ymhob ysgol sydd a mwy na 15 disgybl a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd a llai na 15 disgybl. Gwerir £90,184 o hyn yn nalgylch Tywyn, a £64,051 o hyn rhwng y pedair ysgol. Ni fyddai'r ysgol yn gorwedd o fewn y polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio.

1.6.2 Dyraniad cronnus y 4 ysgol yn 2009/10 yw £527,299. Os derbynnir y cynnig i sefydlu ysgol ardal, byddai cyllideb yr ysgol newydd, ar brisiau heddiw, yn £298,997, sef arbediad o £228,302

1.6.3 Bydd angen darparu cludiant i ddisgyblion i'r ysgol newydd yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. Ar brisiau heddiw, rhagwelir cost ychwanegol o £64,000. Bydd hyn felly yn lleihau'r arbediad disgwyliedig i £164,302.

1.6.4 Mae pob un o'r 4 ysgol yn cario mwy na 45% o lefydd gweigion ar hyn o bryd. O adeiladu ysgol ardal gyda chapasiti i gwrdd â gofynion yr ardal a chanllawiau'r Llywodraeth, rhagwelir lleihau'r canran o lefydd gweigion i tua 10%.

### *1.7 Yr Iaith Gymraeg*

1.7.1 Paratowyd crynodeb o sefyllfa ieithyddol yr ysgolion a barn y penaethiaid ar gyfer datblygiad yr iaith o fewn yr ysgolion. Cyhoeddwyd y crynodeb yn y ddogfen ystadegol a chytunwyd ar ei chynnwys gan bob ysgol.

1.7.2 Os derbynnir y cynnig hwn gan y Cyngor, bydd y Cyngor yn cyflawni Asesiad Ardrawiad Iaith wrth symud i'r broses statudol. Cyflawnir hyn yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad yng Nghylchlythyr 021/2009.

### *1.8 Ffactorau Daearyddol*

1.8.1 Mae'r Deilydd Portffolio yn awyddus i gynnal addysg wledig ac i gynnig dewis o leoliadau i rieni yn y cylch. Mae canllawiau'r Llywodraeth o ran sicrhau mynediad at ysgolion a phwyslais strategaeth Gwynedd ar gyfyngu teithio un ffordd i blant cynradd i ddim mwy na 30 munud un ffordd yn arwain at yr angen i gynnal mwy nag un ysgol yn y dalgylch.

## 2. Cau Ysgol Aberdyfi a chynnig lle i ddisgyblion y dalgylch yn Ysgol Penybryn

### *2.1 Maint Dosbarthiadau*

2.1.1 Maint dosbarthiadau Aberdyfi heddiw yw 10. Maint dosbarthiadau Ysgol Penybryn heddiw ar gyfartaledd yw ychydig yn llai na 25, er bod amrywiaethau o fewn hyn. Mae'r strategaeth yn nodi y dylid anelu at ddosbarthiadau o rhwng 12-25 disgybl.

2.1.2 O gau ysgol Aberdyfi a throsglwyddo disgyblion y dalgylch i Ysgol Penybryn, rhagwelir y bydd digon o gyllid ychwanegol yn dilyn y disgyblion i gynnal 1.5 athro neu athro a chymhorthydd.

2.1.3 Byddai cau'r ysgol a symud y plant i Benybryn yn golygu darparu cyfleoedd i blant Aberdyfi ddysgu mewn grwpiau mwy gyda'u cyfoedion.

### *2.2 Niferoedd disgyblion*

2.2.1 Mae niferoedd disgyblion y ddwy ysgol ar y cyd wedi lleihau 30% rhwng 1975 a 2009. Mae poblogaeth Ysgol Aberdyfi wedi lleihau o 66 i 20 yn y cyfnod, lleihad o 70%, tra bod poblogaeth Ysgol Penybryn wedi lleihau o 248 i 199 (20%).

2.2.2 Mae Ysgol Aberdyfi yn rhagweld cynnydd yn niferoedd disgyblion dros y blynyddoedd nesaf o 20 i tua 24. Mae Ysgol Penybryn yn rhagweld y bydd niferoedd yn lleihau ychydig o 199 i 194.

### *2.3 Amgylchedd Dysgu'r Plentyn*

2.3.1 Mae'r ddwy ysgol mewn cyflwr da ac ychydig o waith sydd ei angen ar yr ysgolion o ran cyflwr.

2.3.2 Mae ysgol Aberdyfi mewn cyflwr da. Serch hynny, mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn amcangyfrif bod yna ôl-groniad cynnal a chadw o £37,000, bod angen gwario £9,500 ar ragofalon tan, a £57,000 ar wneud yr adeilad yn addas i

bwrpas. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau felly'n rhagweld bod angen gwario dros £100,000 ar atgyweirio ac addasu adeilad yr ysgol.

2.3.3 Mae Ysgol Penybryn eto mewn cyflwr da. Mae ôl groniad cynnal a chadw o £44,500, angen gwario £9,500 ar ragofalon tan a £95,000 ar wneud yr adeilad yn addas i bwrpas. Mae hefyd angen gwariant sylweddol ar gyfarfod ag anghenion y DDA oddeutu £77,953. Golyga hyn anghenion gwariant o tua £225,000.

2.3.4 Mae rhaglen gyfalaf y Llywodraeth i gefnogi datblygiad *Ysgolion yr 21ain Ganrif* yn nodi'r awydd i ddatblygu ysgolion cymunedol sy'n addas i anghenion y ganrif hon. Byddai cymeradwyo'r cynnig hwn yn agor posibiliadau wrth geisio ennill grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth.

2.3.5 Derbyniodd Ysgol Penybryn arolwg da iawn yn 2004. Bydd yr ysgol yn wynebu arolwg arall yn ystod 2010. Gosodwyd Ysgol Aberdyfi dan fesurau arbennig yn 2005, a daeth yr ysgol allan o fesurau yn 2008. Credir felly y bydd disgyblion yn derbyn addysg sydd o leiaf cystal yn Ysgol Penybryn.

### *2.4 Arweinyddiaeth*

2.4.1 Penodwyd pennaeth parhaol newydd i Ysgol Penybryn yn 2009. Pennaeth dros dro sydd mewn gofal yn Ysgol Aberdyfi ers saith mlynedd.

2.4.2 Mae profiadau diweddar yn y cylch wedi awgrymu ei bod hi'n gynyddol anodd canfod ymgeiswyr cymwys ac addas i gymryd awenau'r ysgolion.

### *2.5 Y Gymuned*

2.5.1 Cynigiwyd crynodeb o gyfleusterau cymunedol a defnydd gan y gymuned o gyfleusterau'r ysgol yn y dadansoddiad ystadegol a gytunwyd gan bob ysgol.

2.5.2 Ychydig o weithgareddau cymunedol sy'n digwydd yn Ysgol Aberdyfi yn ôl datganiad yr ysgol ym Mehefin 2008. Mae Cylch Ti a Fi a chlwb ffitrwydd wythnosol ar safle'r ysgol. Nid oes unrhyw weithgareddau eraill.

2.5.3 Mae cefnogaeth i'r cynnig yn Ysgol Penybryn. Nid oes cefnogaeth i'r cynnig yn Aberdyfi, lle rhoddir ffafriaeth i sefydlu trefniadau o gydweithio gydag ysgolion Pennal, Pennal a Dyffryn Dulas, Corris, neu gydag Ysgol Penybryn.

2.5.4 Bu trefniant clwstwr rhwng Aberdyfi a Phennal yn y gorffennol gyda phennaeth Pennal yn cymryd gofal dros Aberdyfi. Roedd rhwystredigaeth yn parhau fod Pennal wedi dioddef o'r trefniant ac fe fethodd y clwstwr.

2.5.5 Nid oes awydd gan naill ai Pennal na Phenybryn i gydweithio gydag Aberdyfi. Mae Corris wedi datgan eu bod yn teimlo bod pellter y pentref o Aberdyfi yn gwneud trefniant o gydweithio yn anymarferol.

2.5.6 Nid oes darpariaeth meithrin yn Ysgol Penybryn heddiw. Fel rhan o'r cynnig, bydd y Cyngor yn agor trafodaethau gyda'r cymunedau lleol gyda'r bwriad o sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Penybryn erbyn Medi 2011.

2.5.7 Amcangyfrifir gan y ddwy ysgol bod 33 o blant 3-11 oed yn byw yn nalgylch Aberdyfi heddiw. Mae 13 o'r rhain yn derbyn addysg naill ai yn Ysgol Penybryn neu yng nghylchoedd meithrin Tywyn.

2.5.8 Os derbynnir y cynnig hwn gan y Cyngor, cynhelir asesiad o effaith cymunedol gweithredu'r cynnig yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth yng nghylchlythyr 021/2009.

### *2.6 Adnoddau Ariannol*

2.6.1 Mae Ysgol Aberdyfi o fewn polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio'r Adran Addysg. Mae'r Sir yn gwario £416,300 yn ystod 2009-10 er mwyn cynnal isafswm o bennaeth ac athro ymhob ysgol sydd a mwy na 15 disgybl a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgol o lai na 15 disgybl. Gwerir £90,184 o hyn yn nalgylch Tywyn, £22,212 yn Ysgol Aberdyfi. Nid yw'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio yn weithredol yn Ysgol Penybryn.

2.6.2 Dyraniad Ysgol Aberdyfi yn 2009-10 yw £128,803. O gau'r ysgol, rhagwelir y bydd hyd at £56,360 yn dilyn disgyblion yr ysgol i Ysgol Penybryn. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol o oddeutu £15,000 yn flynyddol, fyddai'n rhyddhau arbediad o £57,443 yn ôl i'r Adran Addysg i'w ddyrannu i ysgolion eraill.

2.6.3 Mae 75% o leoedd Ysgol Aberdyfi, a 35% o leoedd Ysgol Penybryn, yn wag. O weithredu'r cynnig, byddai llefydd gweigion Ysgol Penybryn yn lleihau i tua 27%. Arweiniad y Llywodraeth yw bod "nifer arwyddocaol" o lefydd gweigion pan fo mwy na 25% a mwy na 30 mewn nifer o lefydd gweigion (dangosydd cenedlaethol), gydag argymhelliad y dylid anelu at sicrhau nad yw mwy na 10% o lefydd yn wag.

### *2.7 Yr Iaith Gymraeg*

2.7.1 Paratowyd crynodeb o sefyllfa ieithyddol yr ysgolion a barn y penaethiaid ar gyfer datblygiad yr iaith o fewn yr ysgolion. Cyhoeddwyd y crynodeb yn y ddogfen ystadegol a chytunwyd ar ei chynnwys gan bob ysgol.

2.7.2 Mae tebygrwydd ieithyddol rhwng y cymunedau. Mae dros 80% o ddisgyblion y ddwy ysgol yn dod o gartrefi uniaith Saesneg. 36% o ddisgyblion Pennal sy'n dod o gartrefi uniaith Saesneg gyda 44% yn dod o gartrefi dwyieithog a'r gweddill o gartrefi Cymraeg.

2.7.3 Os derbynnir y cynnig hwn gan y Cyngor, bydd y Cyngor yn cyflawni Asesiad Ardrawiad Iaith wrth symud i'r broses statudol. Cyflawnir hyn yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad yng Nghylchlythyr 021/2009.

### *2.8 Ffactorau Daearyddol*

2.8.1 Mae'r heol rhwng Tywyn ac Aberdyfi yn safonol iawn, gyda phellter o 3.6 milltir o un ysgol i'r llall. Mae hefyd orsafoedd trên yn y ddau le. Mae Ysgol Pennal 7 milltir o Aberdyfi.

## 3. Pennal a Chorris

### *3.1 Maint Dosbarthiadau*

3.1.1 Mae maint dosbarthiadau unigol y ddwy ysgol yn amrywio o 15 i 30.

### *3.2 Niferoedd disgyblion*

3.2.1 Mae niferoedd disgyblion y ddwy ysgol ar y cyd wedi aros yn gyson dros y 35 mlynedd diwethaf. Roedd 99 o ddisgyblion oed 4-10 rhwng y ddwy ysgol yn 1975, a 94 heddiw. Mae Ysgol Pennal wedi gweld cynnydd o 22 i 33 o ddisgyblion, ac Ysgol Dyffryn Dulas lleihad o 77 i 61.

3.2.2 Bydd o leiaf 80 o blant rhwng y safleoedd erbyn 2014.

### *3.3 Amgylchedd Dysgu'r Plentyn*

3.3.1 Mae angen gwariant ar y ddwy ysgol i'w gwneud yn addas. Mae yna ôl-groniad o £60,000 ar y ddau adeilad, £9,500 ar ragofalon tân un safle a £285,000 ar addasu'r adeiladau. Golyga hyn gyfanswm o £355,000.

### *3.4 Arweinyddiaeth*

3.4.1 Mae pennaeth mewn gofal yn un o'r ysgolion, a phennaeth fydd yn gymwys i ymddeol o fewn y ddwy flynedd arall yn y llall.

3.4.2 Mae trafodaethau gyda'r pennaeth parhaol yn awgrymu y bydd hi'n awyddus i aros ymlaen i gynorthwyo gyda datblygu'r trefniant o gydweithio.

### *3.5 Y Gymuned*

3.5.1 Mae staff, llywodraethwyr a rhieni Pennal a Chorris yn awyddus i sefydlu trefniant o gydweithio a hynny cyn gynted â phosib.

3.5.2 Mae mwyafrif llethol plant oed cynradd Corris yn mynychu Ysgol Dyffryn Dulas. Mae Pennal yn denu hanner ei disgyblion o dalgylch Machynlleth.

### *3.6 Adnoddau Ariannol*

3.6.1 Gwneir defnydd effeithiol o leoedd y ddwy ysgol, gyda dim ond18% o lefydd y ddwy ysgol yn wag.

3.6.3 Mae Ysgol Pennal yn derbyn £3,921 trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Byddai hyn yn parhau petai'r ysgolion yn cydweithio.

### *3.7 Yr Iaith Gymraeg*

3.7.1 Mae'r ysgolion yn ieithyddol debycach i'w gilydd nag i Aberdyfi – 66% o blant Pennal a 46% o blant Corris yn dod o gartrefi Cymraeg neu dwyieithog.

### *3.8 Ffactorau Daearyddol*

3.8.1 Mae ffactorau daearyddol yn cefnogi cadw'r ddau safle ar agor. Mae 8 milltir o Gorris i Bennal. Mae Pennal o fewn 3 milltir i Fachynlleth. Mae tebygrwydd y byddai plant Pennal ac efallai Corris yn mynychu ysgolion ym Mhowys petai'r ysgolion yn cau.

**ATODIAD B**

## CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

### CWESTIYNAU CYFFREDINOL

**1. Gofynion Statudol**
**A roddwyd ystyriaeth ddigonol i ddogfen "Cynigion Trefniadaeth Ysgolion" (cylchlythyr 021/2009) wrth lunio cynigion ar gyfer dalgylch Tywyn?**

Cyhoeddwyd y ddogfen newydd ar 18 Medi 2009. Mae'n disodli Cylchlythyr 23/02. Rhoddwyd ystyriaeth i'r prif ffactorau sydd angen i awdurdodau eu hystyried wrth lunio cynigion i newid trefniadaeth ysgolion,wrth lunio'r cynigion yng nghylch Tywyn.

Mae'r Cylchlythyr yn rhestru amryw o ystyriaethau sydd raid eu cwmpasu wrth gloriannu a dod i benderfyniad a'r ffactorau y ystyrir gan y Gweinidog wrth ddod i benderfyniad. Mae cydnabyddiaeth nad yw pob un yn berthnasol ar gyfer pob achlysur.

**2. Y Cyfnod ymgynghori statudol**
**Beth fydd yr amserlen ar gyfer cau Ysgol Aberdyfi os bydd y Cyngor yn cytuno ar 10 Rhagfyr 2009**

Esiampl yw'r isod sy'n cymryd ystyriaeth o ofynion y Llywodraeth

| | |
|---|---|
| Ionawr 2010 | Cynigir cyfarfod anstatudol i bob ysgol sydd yn destun cynnig i'w cau. Aelodau'r gynulleidfa yn fater i'r ysgol |
| Chwefror 2010 | Cyhoeddi dogfen ymgynghorol ffurfiol ar y bwriad i gau'r ysgol |
| Mawrth 2010 | Cyfarfodydd statudol i staff, llywodraethwyr a rhieni pob ysgol. Dylid estyn gwahoddiad i blant yr ysgol hefyd |
| Mawrth-Ebrill 2010 | Cyfnod ymgynghori statudol ar y ddogfen ffurfiol |
| Mai 2010 | Penderfyniad y Cyngor p'un ai i gyhoeddi rhybuddion statudol (gall y Bwrdd wneud y penderfyniad os oes angen) |
| Mai 2010 | Yn ddibynnol ar benderfyniad y Cyngor, cyhoeddi rhybuddion statudol |
| Mai-Gorffennaf 2010 | Cyfnod ar gyfer gwrthwynebiadau ffurfiol |
| Medi 2010 | Penderfyniad terfynol y Cyngor/Bwrdd neu drosglwyddo'r achos i Lywodraeth y Cynulliad |

Arweiniad y Llywodraeth yw y bydd angen 7 mis o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig (h.y. 7 mis o Chwefror 2010) er mwyn i'r Gweinidog wneud penderfyniad. Yn ymarferol, ac o ddisgwyl y bydd gwrthwynebiadau, dylid cynllunio 7 mis o ddyddiad cau'r cyfnod gwrthwynebiadau. Credaf felly y bydd y gweinidog wedi gwneud ei phenderfyniad erbyn Pasg 2011. Bydd felly'n bosib cau'r ysgol erbyn Awst 2011.

## 3. Argaeledd arian cyfalaf

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu dros £200m o arian cyfalaf trwy raglen drosiannol SBIG/Ysgolion 21ain Ganrif yn ystod 2009. Mae un rownd bellach ym mis Mawrth 2010. Tra bod Gwynedd wedi methu ennill unrhyw arian cyfalaf, mae siroedd eraill wedi derbyn symiau sylweddol. Er enghraifft, mae cynllun Sir Powys i adeiladau 4 ysgol ardal newydd i gymryd lle 10 ysgol bentref, ac i wneud gwelliannau sylweddol i ysgol uwchradd y dalgylch (yn ardal Ystradgynlais) wedi ennill bron £37m o grant.

Mae ein trafodaethau gyda swyddogion y Llywodraeth yn awgrymu'n glir mai diffyg strategaeth sydd wrth wraidd methiant Gwynedd. Mae llythyr gan y llywodraeth atom yn cadarnhau fod arian cyfalaf ar gael am "…large scale strategic projects".

## 4. Niferoedd disgyblion y dalgylch

Mae niferoedd disgyblion y dalgylch wedi lleihau 30% ers 1975. Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion y dalgylch yn lleihau tua 9% erbyn 2013.

| Ysgol | Nifer Medi 2009 | Rhagolwg Medi 2013 | 2009-13 | % |
|---|---|---|---|---|
| Abergynolwyn | 14 | 13 | -1 | -7% |
| Bryncrug | 21 | 23 | 2 | 10% |
| Corris | 67 | 50 | -17 | -25% |
| Llanegryn | 34 | 22 | -12 | -35% |
| Llwyngwril | 28 | 22 | -6 | -21% |
| Pennal | 35 | 32 | -3 | -9% |
| Penybryn, Tywyn | 199 | 195 | -4 | -2% |
| Aberdyfi | 20 | 23 | 3 | 15% |
| **Cyfanswm** | **418** | **380** | **-38** | **-9%** |

## ABERDYFI

## 5. Niferoedd disgyblion Ysgol Aberdyfi

Defnyddiwyd gwybodaeth uniongyrchol yr ysgol wrth baratoi'r dadansoddiadau a'r rhagolygon - sef cyfrifiadau ysgolion Medi 2008, Ionawr 2009 a Medi 2009. Derbyniwyd ffigyrau Medi 2009 mis yn ôl.

| | Gwir 2008 | Rhag. 2009 | Gwir 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Mehefin 2009 (cytunwyd gan PAD Tywyn)* | 24 | 23 | 20 | *24* | *22* | *23* | *23* | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Medi 2009 (cyfrifiad ysgolion) | | | 20 | 24 | 22 | 22 | 23 | |
| Plant i gychwyn yn y dosbarth feithrin | | | 1 | 6 | 2 | 2 | 3 | |
| Plant i adael blwyddyn 6 | | | 4 | 2 | 4 | 2 | 2 | 5 |

ir y ffigyrau diweddaraf isod:

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Gwynedd, 24 Medi 2009*

Gwelir felly mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rwng y rhagolygon a gytunwyd ym Mehefin 2009 a'r rhagolygon newydd gynigiwyd gan yr ysgol ym Medi 2009.

**6. Cludiant i Dywyn o Aberdyfi**
**A fydd gwarchodwyr ar y bws? A ydy safle Penybryn yn ddiogel?**

- Darperir cludiant i Ysgol Penybryn i blant Aberdyfi yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.
- Nid ydym yn darparu gwarchodwyr ar fysiau yn y sir
- Mae arolygon cyson gan yr Adran Addysg yn dangos bod safle Penybryn yn ddiogel ar gyfer bysiau – gollyngir y plant tu allan i glwyd yr ysgol.

**7. A yw'n bosib gohirio'r penderfyniad ar Ysgol Aberdyfi am 5 mlynedd**

- nifer o ysgolion wedi gofyn am benderfyniad terfynol nawr a diwedd i'r ansicrwydd
- teimlad na fydd gohirio penderfyniad yn llesol i'r staff nag addysg y plant yn y pendraw.
- Mae'r prif ffactorau dros y newid wedi'u rhestru yn yr adroddiad i'r Cyngor, ond gellir rhestru'r rhesymau gan gynnwys bod 40% o blant Aberdyfi yn teithio i Ysgol Penybryn, Tywyn yn barod, llefydd gweigion dros 70%, ansicrwydd ynghylch rhagolygon niferoedd plant, ni fydd mwy na 24 o ddisgyblion yn yr ysgol ar unrhyw bwynt at 2013, a phrofiadau'r gorffennol o gydweithio gyda Phennal a Phen y Bryn,.

**YSGOL ARDAL BRO DYSYNNI**

**8. Oes plan B?**
**Beth fydd yn digwydd os na fydd arian cyfalaf ar gael? A oes bwriad symud plant y dalgylch i ysgol Bryncrug neu ysgol Penybryn?**

- rydym yn hyderus y gwneir pob ymdrech i sicrhau cyfalaf digonol
- rydym newydd dderbyn arwydd o gefnogaeth gan y Cynulliad gyda llwyddiant cais SCIF am adeilad newydd i Ysgol yr Hendre
- mae Cyngor Powys (cynllun i adeiladu 4 ysgol newydd yn lle 10 ysgol yn ardal Ystradgynlais) wedi ennill bron £37m o grant cyfalaf gan y Llywodraeth eleni tra bod Gwynedd wedi methu ag ennill ceiniog. Awgrym clir mai diffyg cynllunio strategol sydd wrth wraidd hyn.
- Nid yw'r ddadl sy'n mynnu bod gan yr Awdurdod Gynllun B (a awgryma nad oes awydd na bwriad i gynnal ysgol ar gyfer cymuned wledig Bro Dysynni) yn adlewyrchu dyhead y Deilydd Portffolio

**9. Lleoliad yr Ysgol Ardal**

- Rydym wedi adnabod pum safle bosib o amgylch Llanegryn a Bryncrug. Nid yw'n bosib eto i fod yn fanylach na hynny oherwydd sensitifrwydd masnachol y mater.
- Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu'r opsiynau a bydd gwybodaeth bellach ar gael erbyn cyfarfod y Cyngor.

**10. Canolfan Cymunedol Bryncrug**
**Mae hon yn rhan o adeilad yr ysgol, ac mae pryderon am ddyfodol y ganolfan petai'r ysgol ardal newydd yn symud allan o'r pentref**

- Deellir bod yma ansicrwydd hyd nes y gellir gwneud penderfyniad pendant ynghylch lleoliad y ddarpar ysgol ardal.
- Os na fydd yr ysgol ardal yn ddigon agos i Fryncrug i fod yn gartref i ganolfan, bydd angen edrych ar sut y gellir darparu canolfan gymunedol i'r pentref

**11. Beth yw'r "amgylchiadau eithriadol" allai arwain at gau ysgol cyn codi'r ysgol ardal newydd?**

- Nodwyd ffactorau allweddol yn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor (Ebrill 2009) gan gynnwys ffactorau megis niferoedd disgyblion anghynaladwy o isel, cyflwr yr adeilad, anawsterau penodi ymysg ffactorau eraill
- eisiau osgoi sefyllfa debyg i Lawrybetws a'r gobaith yw y bydd cynnig sicrwydd nes i'r ysgol newydd fod yn barod yn cynnal yr ysgolion presennol tan hynny

**12. Niferoedd disgyblion y cylch**
**A oes digon o blant yn y cylch i wneud ysgol ardal yn hyfyw?**

Roedd 107 o blant oed cynradd yn byw yn nalgylchoedd y 4 ysgol yn Ionawr 2009. Ar hyn o bryd, mae dros 20% o blant dalgylchoedd y 4 ysgol yn mynychu ysgolion eraill. Mae siroedd eraill wedi ennill grantiau cyfalaf i ariannu codi ysgolion o faint tebyg i'r ysgol ardal arfaethedig.

**PENNAL A CHORRIS**

**13. Natur y cydweithio rhwng Ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas**

Mae union natur y cydweithio rhwng yr ysgolion yn ddibynnol ar anghenion lleol. Bydd yr Adran Addysg yn cefnogi'r ddwy ysgol wrth ddatblygu model o gydweithio bydd yn addas i bwrpas.